

Cofnodion Cyngor Tref Llangefni am 6:30y.h NOS LUN, 7fed o FEDI 2026 yn Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni

Presennol: Cyng. Margaret Thomas (Maer), Cyng. Geraint Bebb (Dirprwy Faer) Cyng. Non Roberts-Smith, Cyng. Henry Jones, Cyng. Terry Jones, Cyng. Huw Owen.

Siaradodd Grŵp sydd yn cynrychioli Busnesau yn y Dref a'r Cyngor ynghylch y trefniadau ar gyfer Goleuadau'r Nadolig (Gweler 26/134.2 isod).

26/125 Ymddiheuriadau: Cyng. Egryn Lewis, Cyng. Alwyn Parry, Cyng. Non Parry, Dylan W. Rees.

26/126 DATGANIAD O DDIDDORDEB: Dim.

26/127 HEDDLU GOGLEDD CYMRU: Daeth PCs Lisa Thomas ac Andrew Jones i'r cyfarfod.

26/128 I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 13.07.2026 :
Wedi'i gymeradwyo fel cofnod gwir.

26/129 I DDERBYN COFNODION CYFARFOD EITHRIADOL 03.08.2026 :
Wedi'i gymeradwyo fel cofnod gwir.

26/130 I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 13.07.2026 :
Dim.

26/131 CYNLLUNIO :
I DDERBYN PENDERFYNIADAU PWYLLGOR CYNLLUNIO 13.07.2026 :
Wedi'i gymeradwyo fel cofnod gwir.

26/132 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBON GAN Y MAER:
1 Cyfarfod Hwb Ieuenctid :
Mi oedd y sefydliad yma yn symud ymlaen gyda chreu cyfansoddiad.
2 24.07.2026 – Derbyniad Blynnyddol Llu Awyr Brenhinol Y Fali :
Mynychodd y Maer y digwyddiad yma ar ran y Cyngor. Digwyddiad gwyb fwy fel arfer.

26/133 AIL-GYLCHU YN Y SWYDDFA :
Tynnodd y Clerc sylw'r Cyngor at y gofyniad newydd i ailgylchu gwastraff o swyddfeydd.
Cynigiwyd:
1. I brynu bin addas efo adrannau ar wahân ar gyfer papur, caniau, a phlastig am £208.
2. 2. Dod o hyd i gontractwr a fyddai'n gwaredu'r gwastraff hwn, gan gynnwys gwastraff papur cyfrinachol.
Cynigiwyd: Cyng. Geraint Bebb Eiliwyd: Cyng. Terry Jones

26/ 134 MATERION YN CODI GAN AELODAU: Dim.

26/135 ADRODDIAD Y CLERC LOCWM:

1 Seddi Gwag: Adroddodd y Clerc fod y rhybudd cyfethol ar gyfer y 5 sedd gwag ar y Cyngor wedi ei bostio. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau a'r dyddiad cau oedd dydd Iau'r 10^{fed} o Fedi. Cyfarwyddwyd y Clerc i ail hysbysebu os nad oedd unrhyw geisiadau wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

2 Achlysur Nadolig: Cytunwyd cynnal cyfarfod rhwng y Cyngor a'r masnachwyr yn y dyfodol agos i drafod trefniadau ar gyfer y goleuadau ac ati.

3 Gwasanaeth Sul y Cofio 08.11.2026: Roedd y Swyddog Gweinyddol eisoes wedi dechrau trefnu'r digwyddiad hwn.

Mynwent Lon Newydd - Diweddariad Cwmni: Roedd Cwmni CDS wedi cyflwyno cost ar gyfer cam nesaf y prosiect - £23,220. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn dosbarthu'r costau i'r Cynghorwyr ac yn dirprwyo'r penderfyniad terfynol i'r Pwyllgor Mynwent a Meysydd Chwarae ar y 14^{eg} o Fedi.

Materion Eraill: Dim.

26/136 CYLLID :

1 I DDERBYN MANTOLEN ARIANNOL MIS GORFFENNAF AC AWST 2026 :
Pleidlais i gymeradwyo'r Fantolen Ariannol

Cynigiwyd: Cyng. Terry Jones **Eiliwyd:** Cyng. Geraint Bebb

2 Cyflogau - NJC 2026 – 2027

Cynigiwyd mabwysiadu'r codiad cyflog sector cyhoeddus hwn ar gyfer staff y Cyngor.
Argymhellwyd: Cyng. Geraint Bebb **Eiliwyd:** Cyng. Non Roberts-Smith.

3 Bancio – Newid y Mandate

Cytunwyd i ychwanegu'r Clerc Locwm a'r Swyddog Gweinyddol at restr llofnodwyr y banc. Hefyd cael cerdyn credit i'r Swyddog Gweinyddol.

Balansau ar Gyfrifon y Banc

*Cyfredol: £209,202.44, Business Premium 1 £7,336.84 Business Premium 2 £5,785.24 NKW
£1,924.14*

26/137 SWYDD Y CLERC:

1 Diweddariad: Dim ond un ymgeisydd addas oedd wedi gwneud cais am swydd y Clerc. Cyfarwyddodd y Cyngor y Clerc i ail-hysbysebu.

2 Hysbysebion: Gofynnwyd i'r Clerc roi hysbyseb am y swydd hon ar 'Swyddle', gwefan a noddir gan y Llywodraeth am gost o £150 ynghyd â TAW. Bydd y Cyngor yn adolygu materion ym mis Hydref.
Cynigiwyd: Cyng. Non Roberts-Smith **Eiliwyd:** Cyng. Geraint Bebb.

3 Clerc Dros Dro: Ailbenodwyd y Clerc Locwm am 3 mis a'i roi ar y gyflogres (PAYE).
Cynigiwyd: Cyng. Margaret Thomas **Eiliwyd:** Cyng. Terry Jones

26/138 ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN:
Gwnaeth y Cynghorydd Non Dafydd adroddiad y mis hwn ar faterion y Sir a'u heffaith ar Langefni a'r Trigolion.

26/139 GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD :

1 Clwb Rotary Holyhead – Nodwyd.

2 banc bwyd Ynys Môn - Nodwyd.

26/140 GOHEBIAETH: ER GWYBODAETH :

1 Un Llais Cymru - *Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Misoedd Gorffennaf ac Awst 2026 - Derbyn*

2 Materion Eraill wedi'u hanfon trwy e-bost yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst 2026 - Derbyn

26/141 I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYG GAN Y MAER:

- i. Gofynnodd y Maer am roi arwyddion 'Rhaid cadw cŵn ar dennyn' ar y Rhaglen nesaf
- ii. Cynigiodd y Clerc y dylai'r Cyngor ystyried cadarnhau Celt Moss fel Swyddog Cyllid rhan-amser y Cyngor yn y Cyfarfod Llawn nesaf o'r Cyngor.

26/142

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: 12.10.20

Pwyllgor Cynllunio 07.09.2026

Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 14.09.2026